



**Capel Y Tabernacl Efail Isaf  
Chwefror 5ed, 2017**



**Diolch yn fawr i Carol Williams, Emlyn Davies a Rhiannon Humphreys am gymryd at y gwasanaeth y bore 'ma.**

**Mae croeso i chi hyrwyddo gweithgareddau trwy'r daflen wythnosol hon: [geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com).**

**Y SULIAU NESAF**

**Chwefror 12fed** – Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu, myfyrdod gan Geraint Rees, cyfeilio: Bethan  
**Chwefror 19** – Oedfa deuluol gyda Dafydd a Lowri Roberts, cyfeilio: Eleri

**Chwefror 26ain** – Bethan Herbert yn llywyddu, myfyrdod gan y Parchg. Gethin Rhys, Cyfeilio: Bethan

**Mawrth 5ed** - Criw Tonteg – amser i feddwl beth hoffech ei baratoi ar gyfer Sul Gwyl Ddewi!!!!  
Cyfeilio: Sian

**Mawrth 12fed** – y Parchg Aled Edwards gyda Wyn Jones yn llywyddu, cyfeilio: Bethan

**Bwrdd Cyfarwyddwyr Mis  
Chwefror**

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 14 Chwefror. Rhowch wybod i Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) erbyn nos Lun 13eg, os oes mater y credwch y dylid cael ei drafod gan y Bwrdd.

**NEWYDDION TEULUOL**

**Mae Linda Ladd ychydig yn gaeth i'w chartref ar hyn o bryd, ond mewn hwyliau da. Edrychwn ymlaen at ei chael nôl yn ein plith yn fuan.**

**PROSIECT YSGOLION  
CYMORTH CRISTNOGOL**

Mae Cymorth Cristnogol Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda fersiwn Gymraeg prosiect Masnach Deg Cystadleuaeth Barddoniaeth Divine yn ysgolion Cymru.

**Cyngerdd Curiad Calon,  
yn y capel,  
i godi arian ar gyfer  
diffibriliwr i Efail Isaf**

Nos Sul 19 Mawrth am 7 p.m.  
Gyda Côr Godre'r Garth  
Parti'r Efail a Chôr yr Einion  
Tocynnau £7 a £5 – Plis dewch â llawer o ffrindiau

## DAL I GASGLU

Mae'r casglu'n parhau ar gyfer Teuluoedd mewn Argyfwng a phrosiect Adref. Os oes gennych ddillad plant, dillad gwely, sachau cysgu, neu nwyddau ymolchi, mae modd i chi eu gadael yn llofft y capel fel arfer, a bydd John yn sicrhau eu bod yn cyrraedd pen eu taith. Diolch i chi am eich cefnogaeth.

## Elusennau'r Capel 2017

Ar wahan i'n hymrwymiad parhaol at Gymorth Cristnogol a Lesotho a bwydo'r digartref yn y Tab, ffoaduriad a phobl ifanc mewn gofal, ein elusennau lleol eleni fydd:

Gofalwyr Ifanc Rh C Taf,  
Ysgol Tŷ Coch,  
Adref (di-gartre'r cymoedd),  
Pedal Power a  
Cymorth i Ferched

Ffansio helpu i drefnu Gŵyl gelfyddydol, diwylliannol, gymdeithasol, gerddorol ayyb i Gymru yn haf 2018 fydd yn adlewyrchu gwerthoedd cynhwysol a blaengar ein Capel a Cristnogaeth21? Mae croeso i chi ddod i Fetws y Coed, penwythnos Mawrth 31/Ebrill 1af i helpu gynllunio **Gŵyl Coda**. Mynnwch air gyda Geraint Rees.


## Y Safle

Gallwch gysylltu â [loan ar 07505 323299](tel:07505323299). Mae bwcio'r Ganolfan neu'r Capel yn hawdd. Ffoniwch neu decstiwch 07816 341 527 neu 07539 452130 neu [carolinerees2@hotmail.com](mailto:carolinerees2@hotmail.com)

Cofiwch fod pob gwybodaeth am fywyd yr eglwys ar gael ar y wefan, [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org) ac os hoffech chi ragor o fanylion am unrhyw agwedd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws: [gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk/) 07710 237327

**MAI 20fed, siaradwraig flaengar o Awstralia, Dr Val Webb yn cynnal seminar yma yn y capel.**

## Dathlu 300ed Williams Pantycelyn



**Penblwydd Hapus, Pantycelyn!**

Darlith gan yr Athro Densil Morgan ar William Williams Pantycelyn, Saunders Lewis ac E.Keri Evans.

**Croeso cynnes iawn i bawb!**

Ganwyd William Williams ar 11 Chwefror 1717. Felly, traddodir y ddarlith hon ar drothwy dyddiad ei benblwydd.



**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**